GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Y Rhaglen Cynllun Gwên

## Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022


**Awdur:** Tîm Deintyddol Iechyd Cyhoeddus
Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru



**Dyddiad:** 27 Hydref 2022 **Fersiwn:** 1.2

**Dosbarthiad**:
Prif Swyddog Deintyddol, Llywodraeth Cymru
Cyfarwyddwyr Clinigol, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol GIG Cymru



**Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni**: Mae'r ddogfen hon yn coladu adroddiadau am weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Cynllun Gwên, a gynhaliwyd gan y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn y saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Y cyfnod adrodd yw 1 Medi 2021 hyd 31 Awst 2022.



**Diolchiadau**: Diolch i staff y Cynllun Gwên a gyflwynodd yr adroddiadau lleol ac a fu'n gweithio'n ddiflino yn eu prif rolau a'r rolau y cawsant eu hadleoli iddynt yn ystod 2020-2022.

1. Cyflwyniad ........................................................................ 3
2. Crynodeb o’r flwyddyn ................................................................ 4
3. Strwythur y Rhaglen .................................................................. 6
4. Y Rhaglen Brwsio Dannedd dan Oruchwyliaeth............................. 8
5. Y Rhaglen Farnais Fflworid.......................................................... 14
6. Pecynnau brwsio dannedd yn y cartref ar gyfer meithrinfeydd ac ysgolion ............................................................................ 18
7. Gweithio gyda Plant Iach Cymru a phroffesiynau partner ............ 19
8. Cyflawni’r Rhaglen...................................................................... 21
Cyfeiriadau...................................................................................... 24

## 1. Cyflwyniad

Rhaglen genedlaethol i wella iechyd y geg er mwyn atal pydredd dannedd ymhlith plant yng Nghymru yw'r Cynllun Gwên, ac mae'n cael ei chyflawni gan Wasanaethau Deintyddol Cymunedol y GIG yng Nghymru mewn partneriaeth â lleoliadau addysg a gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol y blynyddoedd cynnar. Mae'n deillio o Gylchlythyr Iechyd Cymru 2017/23.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gweithgarwch yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-22. Mae'n dangos yr ymdrechion i ailgyflwyno gwahanol elfennau'r ymyriadau wedi'u targedu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ffurfio'r rhaglen Cynllun Gwên.

Cafodd y Cynllun Gwên ei ohirio o fis Mawrth 2020 yn ystod y pandemig COVID-19 oherwydd bod meithrinfeydd ac ysgolion ar gau a staff wedi'u hadleoli. Roedd staff y Cynllun Gwên ledled Cymru yn werthfawr iawn o ran ymateb y GIG i Covid-19. Cawsant eu hadleoli'n llawn, gan gynnwys i rolau allweddol yn yr unedau profion cymunedol a'r canolfannau brechu. Maent yn gaffaeliad i'r wlad ac roedd yn hyn amlwg wrth i'r rhai a oedd wedi dychwelyd o gael eu hadleoli ym mis Medi 2021 ymgymryd â rolau Covid-19 ar gyfer yr ymateb i Omicron. Roedd hyn yn golygu bod ymdrechion cynnar i ailddechrau'r Cynllun Gwên wedi methu yn ystod hanner olaf 2021 ond ailgydiwyd yn y gwaith hwn yn gyflym erbyn diwedd Gwanwyn 2022.

**Ailddechreuodd 317 o feithrinfeydd ac ysgolion y rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth; cymerodd 15,350 o blant ran yn y rhaglen**

**Hwylusodd 255 o ysgolion ymweliadau triniaeth farnais fflworid; derbyniodd 17,744 o blant o leiaf un driniaeth**

## 2. Crynodeb o'r flwyddyn

Nod y Cynllun Gwên yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-22 oedd ailgydio yn y gweithgarwch cymaint â phosibl wedi iddo gael ei atal yn ystod y pandemig Covid-19. Gyda heriau ac ansicrwydd mawr, derbyniwyd yn gyffredinol y byddai'n anodd iawn dychwelyd ar unwaith i'r lefelau gweithgarwch a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd cyn y pandemig.

Cafodd gweithgarwch y flwyddyn ei lesteirio gan y broses barhaus o adleoli staff a cherbydau yn 2022, a'r heriau a'r tarfu a achoswyd gan yr amrywiad Omicron o Covid-19 ar leoliadau addysgol, ac absenoldeb staff a phlant. Yn ogystal, roedd nifer sylweddol o swyddi gwag wedi cronni yn ystod y ddwy flynedd flaenorol a bu'n rhaid mynd i'r afael â hyn yng nghyd-destun cronfa lai o ymgeiswyr ac ôl-groniadau ym mhroses recriwtio'r GIG. Roedd diffyg cymhelliant a llesiant gwael o ganlyniad i adleoli staff dro ar ôl tro yn broblemau mawr. Dioddefodd y rhaglen yn sgil prinder stoc hefyd, fel y profwyd mewn sectorau eraill, ac yn benodol prinder cenedlaethol o farnais fflworid trwyddedig yn nhymor y Gwanwyn. Ar wahân i'r pandemig, roedd canlyniadau'r llifogydd difrifol ar ddechrau 2020 a ddinistriodd ganolfan waith a nifer o gerbydau'r Cynllun Gwên yn parhau i gael eu goresgyn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Dechreuodd y flwyddyn academaidd 2021-2022 gyda hyfforddiant i staff y Cynllun Gwên, a diweddaru protocolau ac adnoddau. Bu'r staff yn hyblyg iawn, gan weithredu dulliau gweithio'n glyfar a defnyddio cymysgedd sgiliau lle y bo'n bosibl. Rhoddwyd blaenoriaeth i leoliadau. Bu'n rhaid dechrau'r berthynas â lleoliadau o'r newydd, a dechreuodd hyfforddiant a phrosesau cydsynio unwaith eto mewn ffordd fwy llafurus o gymharu â'r blynyddoedd academaidd blaenorol. Effeithiodd hynny ar gyflymder ailddechrau'r gwaith mewn lleoliadau. Cafwyd ymateb cymysg gan leoliadau: roedd rhai ohonynt yn croesawu'n frwd y ffaith bod y Cynllun Gwên yn ailddechrau ac roeddent yn cydnabod gwerth gwelliannau i iechyd y geg a dychwelyd i sefydlu arferion i ddatblygu sgiliau bywyd. Roedd amharodrwydd mewn rhai lleoliadau, yn arbennig mewn perthynas â'r rhaglen brwsio dannedd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi ymateb yn gadarnhaol i ddechrau'r rhaglen brwsio dannedd yn ystod y flwyddyn 2022-2023.

Mae'r gymhariaeth yn Nhabl 1 yn dangos yr angen am gymorth parhaus i alluogi'r Cynllun Gwên i ddychwelyd i'r lefelau gweithgarwch blaenorol, a maint yr ehangu posibl, yn seiliedig ar gwmpas y rhaglen yn 2018-2019.

*Tabl 1: Crynodeb o weithgarwch y Cynllun Gwên yn 2021-22 o gymharu â 2018-19*

| | **Blwyddyn academaidd: 2018/19 (cyn y pandemig)** | **Blwyddyn academaidd: 2021/22** |
|---|---|---|
| Nifer y meithrinfeydd sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch brwsio dannedd | 1,396 | **317** |
| % y meithrinfeydd/ysgolion cymwys sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch brwsio dannedd | 82% | **20%** |
| Nifer y plant sy'n brwsio eu dannedd yn y feithrinfa/ysgol | 90,602 | **15,350** |
| Nifer y lleoliadau a dargedwyd a wrthododd gymryd rhan mewn gweithgarwch brwsio dannedd | 137 | **389** |
| Nifer y staff meithrinfeydd/ysgolion sy'n cael hyfforddiant brwsio dannedd | 4,436 | **2,142** |
| Nifer y pecynnau brwsio dannedd yn y cartref a ddosbarthwyd i feithrinfeydd ac ysgolion | 188,709 | **171,465** |
| Nifer y plant sy'n cael farnais fflworid yn yr ysgol | 44,217 | **17,744** |
| Nifer y pecynnau brwsio dannedd yn y cartref a ddosbarthwyd gan ymwelwyr iechyd | 16,390 | **19,510** |
| Nifer y cwpanau bwydo a ddosbarthwyd gan ymwelwyr iechyd | 8,286 | **7,726** |
| Y gweithlu cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd i gyflawni'r Cynllun Gwên yn GIG Cymru | 82.5 | **88.7** |
| Gwariant y rhaglen o fewn GIG Cymru | £3,767,416 | **£3,265,155** |

## 3. Strwythur y Rhaglen

Rhaglen genedlaethol yw'r Cynllun Gwên, sy'n dilyn egwyddorion cyffredinoliaeth gymesur iechyd cyhoeddus, fel y'u disgrifir gan Marmot[1]. Mae'n seiliedig ar gyflawni'r dulliau gweithredu a argymhellir yng nghanllawiau NICE[1].

*Tabl 2: Model cyflawni'r Cynllun Gwên*

| Amgylchedd | Pwy | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| Cartref | Timau'r Cynllun Gwên<br><br>Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd<br><br>Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar | • Hyfforddiant i staff a myfyrwyr<br>• Elfennau iechyd y geg Rhaglen Plant Iach Cymru<br>• Adnoddau wedi'u hargraffu<br>• Pecynnau brwsio dannedd yn y cartref a chwpanau hyfforddi |
| Practis Deintyddol | Timau'r Cynllun Gwên<br><br>Gwasanaethau Deintyddol Clinigol | • Hyfforddiant i staff<br>• Rhaglen Gwella Ansawdd y 'Cynllun Gwên ar Waith' drwy AaGIC<br>• Adnoddau wedi'u hargraffu |
| Meithrinfeydd ac Ysgolion Cynradd | Timau'r Cynllun Gwên<br><br>Staff Addysgu/Gofal Plant | • Hyfforddiant i staff<br>• Rhaglenni brwsio dannedd dan oruchwyliaeth<br>• Rhaglen farnais fflworid<br>• Pecynnau brwsio dannedd yn y cartref<br>• Adnoddau addysgu yn y dosbarth<br>• Cydweithrediad rhwng Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru a darpariaeth cyn ysgol |

A) Rhaglen ataliol gyffredinol i blant o'u genedigaeth, sydd wedi'i chynnwys yn Rhaglen Plant Iach Cymru. Y nodau yw helpu i ddechrau arferion da yn gynnar drwy roi cyngor i deuluoedd â phlant ifanc, a'u hannog i fynd i weld deintydd yn rheolaidd. Mae'r elfen hon o'r Cynllun Gwên yn cyd-fynd â'r rhaglen Plant Iach Cymru a'i dull o ddarparu cymorth cyffredinol ac ychwanegol. Mae plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael pecynnau brwsio dannedd yn y cartref a chwpanau bwydo.

Anogir pob ysgol gynradd yng Nghymru i gymryd rhan yn Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru, ac o fewn y rhwydwaith hwnnw, ymgorffori arfer da ar gyfer ymddygiad iach fel rhan o ddull gweithredu 'ysgol gyfan'. Mae hyn yn cynnwys bwyta'n iach ar gyfer iechyd y geg a pholisïau ar y ddarpariaeth bwyd a diod yn y lleoliad. Mae'r Cynllun Gwên yn gweithio'n agos gyda Chydgysylltwyr Ysgolion Iach a'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes. Mae adnoddau addysgu'r Cynllun Gwên ar gael yn gyffredinol ar Hwb (https://hwb.gov.wales//) i gefnogi

gweithwyr addysgu proffesiynol sy'n darparu addysg iechyd y geg a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd y geg.

B) Rhaglen ataliol wedi'i thargedu ar gyfer plant mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglenni brwsio dannedd a farnais fflworid mewn meithrinfeydd ac ysgolion i blant er mwyn helpu i ddiogelu plant rhag pydredd. Darperir pecynnau brwsio dannedd yn y cartref hefyd er mwyn annog arferion da yn y cartref. Mae'r agweddau hyn ar y Cynllun Gwên wedi'u targedu tuag at ardaloedd mwy difreintiedig o Gymru[a], gyda thua 70% o feithrinfeydd ac ysgolion yn cael eu gwahodd i gymryd rhan. Mae plant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 2 (6-7 oed) wedi'u cynnwys yn y ddarpariaeth. Hefyd, gwahoddir pob meithrinfa â statws Dechrau'n Deg, a phob ysgol â darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol i gymryd rhan.

### Canllawiau NICE PH55 Oral Health: local authorities and partners (2014)[2]

| | |
|---|---|
| **17** | **Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd y geg, fel rhan o ddull gweithredu 'ysgol gyfan' ym mhob ysgol gynradd** |
| **18** | **Cynlluniau penodol i wella a diogelu iechyd y geg mewn ysgolion cynradd mewn ardaloedd lle mae plant yn wynebu risg uchel o iechyd y geg gwael** |

[a] Gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, yn seiliedig ar god post y lleoliad.


## 4. Y Rhaglen Brwsio Dannedd dan Oruchwyliaeth

*Canllawiau NICE PH55 Oral Health: local authorities and partners (2014)*[1]

| | |
|---|---|
| **15** | **Cynlluniau brwsio dannedd dan oruchwyliaeth ar gyfer meithrinfeydd mewn ardaloedd lle mae plant yn wynebu risg uchel o iechyd y geg gwael** |
| **19** | **Cynlluniau brwsio dannedd dan oruchwyliaeth ar gyfer ysgolion cynradd mewn ardaloedd lle mae plant yn wynebu risg uchel o iechyd y geg gwael** |

Ailddechreuodd mwyafrif y rhaglenni brwsio dannedd dan oruchwyliaeth rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2022.

*Ffigur 1: Gweithgarwch i ailddechrau'r rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth, fesul mis yn y flwyddyn academaidd 2021-2022*




Ailddechreuodd cyfanswm o 317 o feithrinfeydd ac ysgolion raglen brwsio dannedd y flwyddyn academaidd hon (182 o feithrinfeydd a 135 o ysgolion). Oherwydd bod timau'r Cynllun Gwên wedi blaenoriaethu lleoliadau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, mae Tabl 3 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r lleoliadau a oedd yn cymryd rhan yn y categorïau MALIC1 a MALIC2. Yn anecdotaidd, adroddodd timau'r Cynllun Gwên bod mwy o barodrwydd mewn meithrinfeydd nag ysgolion i ailddechrau'r rhaglen, a allai esbonio pam mae mwy o feithrinfeydd nag ysgolion yn cymryd rhan.


Nid oedd llawer o'r lleoliadau a gafodd wahoddiad yn fodlon cymryd rhan yn y rhaglen yn y flwyddyn academaidd hon (n=389), ac roedd cyfran sylweddol o leoliadau cymwys (n=866) na chawsant eu gwahodd oherwydd capasiti cyfyngedig yn nhimau'r Cynllun Gwên i hyfforddi staff a goruchwylio'r broses o ailddechrau'r rhaglen yn y lleoliad hwnnw.

*Tabl 3: Statws cyfranogiad yn y rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth*

| | **Cyfranogi** | **Heb eu targedu eto oherwydd capasiti'r Cynllun Gwêb** | **Wedi gwrthod/tynnu'n ôl** | **Cyfanswm cymwys** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **317** | **866** | **389** | **1,572** |
| MALIC1 | 163 | 190 | 119 | 472 |
| MALIC 2 | 105 | 259 | 170 | 534 |
| MALIC 3 | 37 | 352 | 82 | 471 |
| Arall | 12 | 65 | 18 | 95 |
| **BIPAB** | 49 | 186 | 3 | 238 |
| **BIPBC** | 40 | 319 | 71 | 430 |
| **BIPCaF** | 57 | 92 | 13 | 162 |
| **BIPCTM** | 31 | 38 | 170 | 239 |
| **BIPHDd** | 84 | 119 | 34 | 237 |
| **BIAP** | 2 | 51 | 28 | 81 |
| **BIPBA** | 54 | 61 | 70 | 185 |

Roedd profiad blaenorol y lleoliadau a ailddechreuodd eu gweithgarwch brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn 2021-2022 yn amrywio, fel y dangosir yn Ffigur 2. Roedd llawer o leoliadau wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Gwên ers ei ddyddiau cynnar yn 2008-2009, ond roedd 12 lleoliad nad oeddent wedi cymryd rhan o'r blaen (mae'n bosibl eu bod yn lleoliadau newydd), ac fe wnaethant ddechrau cynllun brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn 2022.

*Ffigur 2: Y flwyddyn wreiddiol y dechreuodd y lleoliadau sy'n cymryd rhan yn awr gymryd rhan am y tro cyntaf yn rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth y Cynllun Gwên*





O fewn y 317 o leoliadau a oedd yn cymryd rhan, cafwyd cydysniad gan rieni i'w plant gymdyr rhan yn y rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth ar gyfer 15,559 o blant (Tabl 4). Roedd hyn yn cynrychioli tua 77% o'r plant. Mae hyn yn is na'r cyfraddau cydsynio a sicrhawyd cyn y pandemig COVID-19; yn y flwyddyn academaidd 2018-2019, roedd y gyfradd gydsynio yn 93.5%. Fel y disgrifir uchod, cymerodd mwy o feithrinfeydd ran yn y flwyddyn academaidd hon o gymharu ag ysgolion, sy'n esbonio pam mae cyfran uwch o blant o dan 4 oed yn cymryd rhan o gymharu â nifer y plant mewn dosbarthiadau Derbyn – Blwyddyn 2 mewn ysgolion cynradd.  Cymerodd cyfanswm o 15,350 o blant ran yn y rhaglen.

*Tabl 4: Nifer y plant sy'n brwsio dannedd yn y lleoliadau sy'n cymryd rhan, yn ôl oedran*

| | **Nifer y plant cymwys mewn lleoliadau sy'n cymryd rhan** | **Y nifer â chydsyniad** | **Nifer y plant 2-3 oed** | **Nifer y plant 3-4 oed** | **Nifer y plant mewn dosbarthia-dau Derbyn** | **Nifer y plant yn Bl 1** | **Nifer y plant yn Bl. 2** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **20,040** | **15,449** | **5,036** | **2,873** | **2,632** | **2,579** | **2,230** |
| MALIC *1* | 11,056 | 8,455 | 2,719 | 1,544 | 1,467 | 1,435 | 1,214 |
| MALIC *2* | 6,473 | 4,865 | 1,408 | 1,008 | 868 | 853 | 728 |
| MALIC *3* | 1,556 | 1,343 | 566 | 158 | 214 | 210 | 172 |
| *Arall* | 955 | 786 | 343 | 163 | 83 | 81 | 116 |
| **BIPAB** | 3,378 | 2,962 | 640 | 755 | 653 | 645 | 269 |
| **BIPBC** | 2,646 | 1,165 | 502 | 56 | 94 | 163 | 350 |
| **BIPCaF** | 3,826 | 2,790 | 957 | 528 | 496 | 527 | 259 |
| **BIPCTM** | 1,840 | 1,471 | 358 | 319 | 243 | 253 | 227 |
| **BIPHDd** | 4,330 | 3,609 | 1,210 | 570 | 621 | 580 | 628 |
| **BIAP** | 115 | 48 | 0 | 22 | 26 | 0 | 0 |
| **BIPBA** | 3,905 | 3,404 | 1,369 | 623 | 499 | 411 | 497 |


Mae'n ofynnol i feithrinfeydd ac ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Gwên gymryd rhan mewn ymweliadau sicrhau ansawdd gan dimau'r Cynllun Gwên. Cynhaliwyd cyfanswm o 364 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn academaidd. Roedd angen cyflwyno mesurau adferol mewn chwe lleoliad yn dilyn ymweliad sicrhau ansawdd (1.6%). Yn ystod yr ymweliad, gofynnwyd i'r lleoliad frwsio bob dydd y byddai'r plant yn bresennol. Yn yr ymweliadau sicrhau ansawdd gofynnol gan dimau'r Cynllun Gwên, dywedodd 273 o leoliadau eu bod yn brwsio 5 gwaith yr wythnos (Ffigur 3).

*Ffigur 3: Sawl gwaith yr wythnos, ar gyfartaledd (dyddiau'r wythnos yn unig) y mae'r lleoliadau sy'n cymryd rhan yn dweud eu bod yn brwsio dannedd*




Mae angen hyfforddiant ar staff meithrinfeydd ac ysgolion gan dîm y Cynllun Gwên cyn dechrau ar raglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth.  Roedd yn ofyniad i bob lleoliad dderbyn hyfforddiant cyn ailddechrau eu rhaglenni yn y flwyddyn academaidd hon.  Cafodd cyfanswm o 2,142 aelod o staff eu hyfforddi mewn lleoliadau a gymerodd ran yn y rhaglen brwsio dannedd yn y flwyddyn academaidd hon.  Mae Ffigur 4 yn dangos nifer y staff meithrinfeydd ac ysgolion a hyfforddwyd ym mhob ardal bwrdd iechyd.  Roedd nifer y staff a hyfforddwyd yn amrywio o 1 i 26 ym mhob lleoliad.  Mae hyn yn debygol oherwydd maint y lleoliad o ran y plant sy'n mynychu.  Canfuwyd cyfartaledd tebyg ar draws pob bwrdd iechyd, gyda 6.7 aelod o staff yn cael eu hyfforddi fesul lleoliad.  Eto i gyd, y nifer mwyaf cyffredin o staff a hyfforddwyd mewn lleoliad oedd 4 (mewn 49 o leoliadau).

*Ffigur 4: Nifer y staff ysgol a meithrinfa a gafodd hyfforddiant yn y lleoliadau sy’n cymryd rhan yn y rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth eleni, yn ôl bwrdd iechyd*



Roedd rhai byrddau iechyd wedi darparu hyfforddiant i staff meithrinfeydd ac ysgolion i baratoi ar gyfer eu hymrwymiad i ailddechrau'r rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn gynnar yn y flwyddyn academaidd ddilynol.  Digwyddodd hyn mewn 59 o leoliadau ychwanegol (32 o feithrinfeydd a 27 o ysgolion), ac roedd yn cynnwys 379 o aelodau o staff.

*Ffigur 5: Neges ar Twitter yn dangos cystadleuaeth hyrwyddo ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i annog lleoliadau i gymryd rhan ym Mis Cenedlaethol Gwenu ym mis Mehefin 2022*



## 5. Y Rhaglen Farnais Fflworid

*Canllawiau NICE PH55 Oral health: local authorities and partners (2014)*[1]

| | |
|---|---|
| **16** | **Rhaglenni farnais fflworid ar gyfer meithrinfeydd mewn ardaloedd lle mae plant yn wynebu risg uchel o iechyd y geg gwael** |
| **20** | **Rhaglenni farnais fflworid ar gyfer ysgolion cynradd mewn ardaloedd lle mae plant yn wynebu risg uchel o iechyd y geg gwael** |

Cymerodd cyfanswm o 255 o ysgolion ran yn y rhaglen farnais fflworid yn y flwyddyn academaidd hon. Rhoddodd timau'r Cynllun Gwên flaenoriaeth i ymweld â lleoliadau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac mae Tabl 5 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r lleoliadau a gymerodd ran mewn ardaloedd â statws MALIC1 a MALIC2. Roedd capasiti yn cyfyngu'r graddau y gellid cynnig ymweliadau farnais fflworid i bob lleoliad cymwys.

*Tabl 5: Nifer y lleoliadau a gymerodd ran yn y rhaglen Farnais Fflworid*

| | **Yn cyfranogi** | **Heb eu targedu eto oherwydd capasiti'r Cynllun Gwên** | **Wedi gwrthod / tynnu yn ôl** | **Cyfanswm y lleoliadau cymwys** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **255** | **507** | **63** | **825** |
| *MALIC1* | 154 | 72 | 7 | 233 |
| *MALIC2* | 69 | 187 | 20 | 276 |
| *MALIC3* | 13 | 206 | 30 | 249 |
| *Arall* | 19 | 42 | 6 | 67 |
| **BIPAB** | 1 | 125 | 2 | 128 |
| **BIPBC** | 36 | 146 | 23 | 205 |
| **BIPCaF** | 37 | 49 | 1 | 87 |
| **BIPCTM** | 49 | 89 | 1 | 139 |
| **BIPHDd** | 34 | 74 | 13 | 121 |
| **BIAP** | 4 | 21 | 12 | 37 |
| **BIPBA** | 94 | 3 | 11 | 108 |


O fewn y 255 o leoliadau a gymerodd ran, roedd rhiant/gofalwr wedi rhoi eu cydsyniad i 21,763 o blant gymryd rhan yn y rhaglen farnais fflworid (Tabl 6). Roedd hyn yn cynrychioli tua 71% o'r plant. Mae hyn ychydig yn is na'r cyfraddau cydsyniad a gyflawnwyd cyn y pandemig COVID-19; yn ystod y flwyddyn academaidd 2018-2019, y gyfradd gydsynio ar gyfer cymryd rhan yn y rhaglen farnais fflworid oedd 79%. Cafodd tua 8% o blant â chydsyniad eu heithrio am resymau meddygol. Cafodd cyfanswm o 17,744 o blant y driniaeth farnais fflworid. Mae'r nifer hwn yn llai na'r rhai â chydsyniad, ar ôl hepgor y rhai a oedd wedi'u heithrio am resymau meddygol, yn bennaf oherwydd absenoldeb o'r ysgol a phlant yn gwrthod y driniaeth ar y diwrnod.

*Tabl 6: Nifer y plant sy'n derbyn triniaeth Farnais Fflworid, yn ôl oedran*

| | Cyfanswm y plant cymwys yn y lleoliadau sy'n cymryd rhan | Y nifer â chydsyniad | Y nifer a gafodd eu heithrio am resymau meddygol | Nifer y plant 3-4 oed | Nifer y plant mewn dosbarthiadau Derbyn | Nifer y plant yn Bl.1 | Nifer y plant yn Bl. 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **30,597** | **21,763** | **1,783** | **4,325** | **4,491** | **4,810** | **4,118** |
| *MALIC1* | 18,974 | 13,304 | 1,078 | 2,726 | 2,825 | 3,073 | 2,376 |
| *MALIC2* | 7,346 | 5,222 | 467 | 923 | 1,056 | 1,076 | 1,026 |
| *MALIC3* | 1,781 | 1,381 | 103 | 279 | 251 | 297 | 299 |
| *Arall* | 2,496 | 1,856 | 135 | 397 | 359 | 364 | 417 |
| **BIPAB** | 75 | 59 | 6 | 17 | 20 | 16 | 0 |
| **BIPBC** | 4,550 | 3,136 | 247 | 570 | 670 | 684 | 687 |
| **BIPCaF** | 5,635 | 3,853 | 251 | 864 | 799 | 876 | 798 |
| **BIPCTM** | 3,626 | 2,724 | 224 | 724 | 768 | 851 | 0 |
| **BIPHDd** | 3,942 | 2,442 | 241 | 325 | 434 | 461 | 500 |
| **BIAP** | 334 | 187 | 30 | 0 | 53 | 50 | 48 |
| **BIPBA** | 12,435 | 9,362 | 784 | 1,825 | 1,747 | 1,872 | 2,085 |

O blith y 255 o ysgolion a gymerodd ran yn y rhaglen farnais fflworid, cafodd 159 o leoliadau 2 ymweliad farnais fflworid yn ystod y flwyddyn, a chafodd 96 un ymweliad yn unig. Roedd hyn oherwydd anallu i ddechrau'r rhaglen yn gyflym yn ystod tymor yr Hydref. Mae Ffigur 6 yn dangos y misoedd lle y cynhaliwyd yr ymweliad cyntaf a'r ail ymweliad fflworid a gynhaliwyd ar gyfer pob bwrdd iechyd.

*Ffigur 6: Y gweithgarwch i ailddechrau'r rhaglen farnais fflworid, fesul mis yn y flwyddyn academaidd 2021-2022*




Mae tabl 7 yn dangos bod 7,777 o blant wedi cael dwy driniaeth farnais fflworid yn ystod y flwyddyn, a bod 9,808 wedi cael un driniaeth yn unig[b].

*Tabl 7: Nifer y plant a gafodd un neu ddwy driniaeth Farnais Fflworid*

| | **Nifer y plant a gafodd ddwy driniaeth Farnais Fflworid** | **Nifer y plant a gafodd un driniaeth Farnais Fflworid yn unig** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **7,777** | **9,808** |
| *MALIC1* | **5,815** | **5,073** |
| *MALIC2* | **1,348** | **2,731** |
| *MALIC3* | **431** | **695** |
| *Arall* | **183** | **1,309** |
| **BIPAB** | 0 | 53 |
| **BIPBC** | 1,471 | 1,140 |
| **BIPCaF** | 1,920 | 1,417 |
| **BIPCTM** | 1,436 | 821 |
| **BIPHDd** | 0 | 1,720 |
| **BIAP** | 0 | 151 |
| **BIPBA** | 2,950 | 4,506 |

[b] Mae anghysondebau yn y data a gofnodwyd yn Nhabl 6 a Tabl 7 ar gyfer BIPCTM a BIPSB, sydd wedi'u nodi a darparwyd hyfforddiant.

O blith yr 17,744 o blant a gafodd farnais fflworid, nodwyd bod gan 3,024 (17%) arwyddion o bydredd dannedd a oedd yn peri pryder (Tabl 8). Arweiniodd hyn at gyflwyno cerdyn pryderon i'w rhiant/gofalwr. Mae'n werth nodi bod y pryder hwn wedi'i nodi gan nyrsys deintyddol ar ddyletswydd estynedig ac nid ystyrir ei fod yn archwiliad. Byddant yn fwy tebygol o danamcangyfrif nifer yr achosion o bydredd o fewn y boblogaeth hon. Roedd y ganran uchaf o blant y cyflwynwyd cerdyn pryderon iddynt yn y lleoliadau MALIC1 (19%).

*Tabl 8: Nifer y plant a y rhoddwyd cerdyn i'w rhiant/gofalwr yn mynegi pryderon ynghylch pydredd dannedd*

| | MALIC 1 | MALIC 2 | MALIC 3 | Arall |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | 2,060 | 593 | 173 | 198 |

## 6. Pecynnau brwsio dannedd yn y cartref ar gyfer meithrinfeydd ac ysgolion

*Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Delivering Better Oral Health: an evidence-based toolkit for prevention (2021)*[3]

| |
|---|
| **Er mwyn atal pydredd dannedd, y defnydd o fflworid mewn past dannedd yw'r agwedd bwysicaf ar frwsio, oherwydd mae fflworid yn helpu i atal, rheoli ac arafu pydredd dannedd.** |
| **Dylid brwsio o leiaf ddwywaith y dydd, ac mae'r canllawiau yn datgan y dylid glanhau'r dannedd cyn mynd i'r gwely ac o leiaf un amser arall bob dydd.** |

Rhoddir pecynnau brwsio dannedd yn y cartref i leoliadau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Gwên er mwyn iddynt eu dosbarthu i'r plant sy'n eu mynychu, ddwywaith y flwyddyn. Gwneir hyn er mwyn annog arferion iach o ran brwsio dannedd yn y cartref. Gwnaed ymdrechion drwy gydol y pandemig i barhau â'r ymyrraeth hon, ac yn y flwyddyn academaidd 2021-2022, darparwyd pecynnau cartref i leoliadau cymwys hyd yn oed os nad oeddent yn cymryd rhan yn y rhaglenni brwsio dannedd dan oruchwyliaeth neu'r farnais fflworid. Mae Tabl 9 yn dangos y dosbarthiad o becynnau cartref i 784 o feithrinfeydd a 830 o ysgolion, a chyfanswm nifer y pecynnau cartref a ddosbarthwyd i'r lleoliadau hyn. Mae nifer y pecynnau a ddarparwyd i bob lleoliad yn seiliedig ar nifer y plant sy'n eu mynychu, ac felly cofnodir amcangyfrif o nifer blant sy'n derbyn pecynnau cartref.

*Tabl 9: Nifer y pecynnau brwsio dannedd yn y cartref a ddosbarthwyd i feithrinfeydd ac ysgolion*

| | **Nifer y meithrinfeydd a gafodd becynnau brwsio dannedd yn y cartref** | **Nifer yr ysgolion a gafodd becynnau brwsio dannedd yn y cartref** | **Cyfanswm y nifer o becynnau cartref a ddosbarthwyd i leoliadau** | **Amcangyfrif o nifer y plant a gafodd becynnau cartref o'r lleoliad** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **784** | **830** | **171,465** | **95,623** |
| **ABUHB** | 109 | 129 | 35,592 | 19,507 |
| **BCUHB** | 226 | 205 | 35,348 | 18,014 |
| **CAVUHB** | 75 | 87 | 22,237 | 13,054 |
| **CTMUHB** | 140 | 139 | 38,856 | 17,499 |
| **HDUHB** | 116 | 121 | 12,720 | 8,692 |
| **PTHB** | 44 | 37 | 5,008 | 2,503 |
| **SBUHB** | 74 | 112 | 21,704 | 16,354 |

## 7. Gweithio gyda Plant Iach Cymru a phroffesiynau partner

*Canllawiau NICE PH55 Oral Health: local authorities and partners (2014)*

| | |
|---|---|
| **7** | **Gall staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen roi cyngor ar bwysigrwydd iechyd y geg** |
| **12** | **Cynnwys hybu iechyd y geg mewn manylebau ar gyfer pob un o wasanaethau'r blynyddoedd cynnar** |
| **13** | **Pob gwasanaeth y blynyddoedd cynnar yn darparu gwybodaeth a chyngor iechyd y geg** |
| **14** | **Mae gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn darparu gwybodaeth ychwanegol wedi'i theilwra a chyngor i grwpiau sy'n wynebu risg uchel o iechyd y geg gwael** |

*Public Health England: York Health Economics Consortium: Rapid review of evidence on the cost-effectiveness of interventions to improve the oral health of children aged 0-5 years (2016)*[4]

| |
|---|
| **Mae darpariaeth wedi'i thargedu o frwshys dannedd a phast dannedd gan ymwelwyr iechyd yn gosteffeithiol** |

Mae timau'r Cynllun Gwên yn darparu hyfforddiant addysg iechyd y geg i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol (Tabl 1). Mae darparu cyngor ar iechyd y geg i deuluoedd yn elfen graidd o'r rhaglen Plant Iach Cymru, yn amserlen gyswllt ymwelwyr iechyd. Darparwyd hyfforddiant hefyd i fydwragedd, myfyrwyr nyrsio a gweithwyr proffesiynol gofal plant a deintyddiaeth. Y tu hwnt i'r hyfforddiant, mae timau'r Cynllun Gwên yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gynnwys camau gweithredu gwella iechyd mewn strategaethau a rhaglenni iechyd plant a dylanwadu ar bolisïau.

*Tabl 10: Nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n derbyn hyfforddiant addysg iechyd y geg*

| | Nifer yr Ymwelwyr Iechyd/ myfyrwyr sydd wedi cael hyfforddiant (y nifer o sesiynau hyfforddiant) | Nifer y gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi cael hyfforddiant (y nifer o sesiynau hyfforddiant) |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **469 (29)** | **339 (30)** |
| **BIPAB** | 0 | 0 |
| **BIPBC** | 242 (21) | 69 (3) |
| **BIPCaF** | 0 | 10 (3) |
| **BIPCTM** | 36 (2) | 117 (8) |
| **BIPHDd** | 25 (2) | 118 (14) |
| **BIAP** | 51 (1) | 0 |
| **BIPBA** | 115 (3) | 25 (2) |

Mae'r Cynllun Gwên yn darparu pecynnau brwsio dannedd yn y cartref a chwpanau dysgu yfed i'r rhaglen Plant Iach Cymru, i'w dosbarthu gan ymwelwyr iechyd wrth roi addysg iechyd y geg i rieni/gofalwyr babanod a phlant ifanc (Tabl 11).  Darparwyd cyfanswm o 19,510 o becynnau cartref i ymwelwyr iechyd yn 2021-2022.

*Tabl 11: Nifer y pecynnau brwsio dannedd yn y cartref a chwpanau hyfforddi a ddosbarthwyd i'r rhaglen Plant Iach Cymru*

| | Nifer y pecynnau cartref a ddarparwyd i Ymwelwyr Iechyd | Nifer y cwpanau dysgu yfed a ddarparwyd i Ymwelwyr Iechyd |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **19,510** | **7,726** |
| **BIPAB** | 9,200 | 0 |
| **BIPBC** | 4,345 | 4,045 |
| **BIPCaF** | 390 | 231 |
| **BIPCTM** | 600 | 600 |
| **BIPHDd** | 1,850 | 600 |
| **BIAP** | 400 | 50 |
| **BIPBA** | 2,725 | 2,200 |

## 8. Cyflawni'r Rhaglen

D.S. Mae'r data a gyflwynir yn yr adran hon yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol 2021-22, yn hytrach na'r flwyddyn academaidd.

Fel y nodwyd eisoes, bu'n flwyddyn o drosiant sylweddol o ran staff, a recriwtio. Mae Tabl 12 yn cyflwyno'r gweithlu fel y'i cofnodwyd ym mis Mawrth 2022. Mae Tabl 13 yn cyflwyno gwariant blynyddol y rhaglen.

Cyflwynodd y flwyddyn academaidd 2021-2022 gyfleoedd i hyfforddi staff y Cynllun Gwên, am gost isel neu am ddim i'r rhaglen (Tabl 13). Cwblhaodd nifer o aelodau o staff ar draws gwahanol fyrddau iechyd y cwrs Gwneud i Waith Ataliol Weithio'n Ymarferol (MPWiP) sy'n cael ei ddarparu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Roedd hyn yn cynnwys prosiect gwella ansawdd wedi'i anelu at wella mynediad at ofal deintyddol i blant a nodwyd drwy'r rhaglen farnais fflworid. Mae staff y Cynllun Gwên yn croesawu'r dull hwn o raeadru hyfforddiant, oherwydd daeth aelodau eraill o'r tîm yn aseswyr codi a chario, neu derbyniwyd hyfforddiant rhaeadru cynnal bywyd pediatrig sylfaenol.

Llwyddodd dau aelod o'r tîm i basio cyrsiau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a bu i un arweinydd clinigol gymryd rhan mewn rhaglen Darganfod, Datblygu a Chyflawni mewn Arweinyddiaeth Gofal Iechyd gydag AaGIC. Roedd hyn yn cynnwys prosiect gwella ansawdd i wella mynediad at ofal deintyddol i blant a nodwyd drwy'r rhaglen farnais fflworid.

*Tabl 12: Gweithlu'r Cynllun Gwên (WTE) yng Ngwasanaethau Deintyddol Cymunedol y GIG (Mawrth 2022)*

| | **Gyrrwr Symudol / MDU** | **Cynorthwyydd / Swyddog Gweinyddol** | **Gweithiwr Cymorth Deintyddol/ Iechyd y Geg** | **Addysgwr/ Hyrwyddwr Deintyddol / Iechyd y Geg** | **Addysgwr/ Hyrwyddwr Deintyddol/Iechyd y Geg a Nyrs Ddeintyddol Farnais Fflworid** | **Nyrs Ddeintyddol Farnais Fflworid** | **Hylenydd / Therapydd Deintyddol** | **Swyddog Deintyddol / Uwch Swyddog Deintyddol** | **Arweinydd / rheolwr y tîm Cynllun Gwên** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **1 (0.6)** | **8 (5.4)** | **47 (30.5)** | **24 (16.7)** | **22 (13.4)** | **15 (9.2)** | **2 (0.6)** | **5 (1.01)** | **17 (11.3)** |
| **BIPAB** | 1 (0.6) | 2 (1.9) | 9 (8.6) | 4 (2.53) | 4 (2.54) | 0 | 1 (0.2) | 1 (0.4) | 4 (1.6) |
| **BIPBC** | 0 | 2 (1.0) | 11 (5.84) | 9 (6.36) | 0 | 5 (3.02) | 0 | 1 (0.2) | 5 (3.6) |
| **BIPCaF** | 0 | 1 (0.6) | 8 (4.52) | 0 | 8 (4.35) | 4 (1.98) | 0 | 1 (0.2) | 1 (0.8) |
| **BIPCTM** | 0 | 1 (0.81) | 6 (3.73) | 6 (3.88) | 0 | 2 (1.06) | 0 | 2 (0.21) | 2 (1.52) |
| **BIPHDd** | 0 | 1 (0.57) | 4 (2.71) | 5 (3.93) | 0 | 3 (3) | 0 | 0 | 3 (1.8) |
| **BIAP** | 0 | 0 | 5 (2.57) | 0 | 2 (0.8) | 1 (0.12) | 1 (0.4) | 0 | 1 (1.0) |
| **BIPBA** | 0 | 1 (0.52) | 4 (2.54) | 0 | 8 (5.73) | 0 | 0 | 0 | 1 (1.0) |

*Tabl 13: Gwariant y Cynllun Gwên yn y Flwyddyn Ariannol Ebrill 2021-Mawrth 2022*

| | **Deunyddiau Traul £** | **Gweinyddu'r Rhaglen £** | **Pecynnau Deintyddol i'w defnyddio yn y cartref £** | **Costau Teithio e.e. llogi cerbydau, milltiroedd £** | **Cyflogau staff £** | **Hyfforddiant Staff £** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru** | **274,900** | **102,260** | **172,431** | **120,632** | **2,591,504** | **1,428** | **3,265,155** |
| **BIPAB** | 23,394 | 17,252 | 25,394 | 4,160 | 536,615 | 0 | 608,815 |
| **BIPBC** | 53,402 | 32,847 | 28,946 | 26,202 | 636,052 | 1,040 | 778,489 |
| **BIPCaF** | 9,767 | 19,176 | 23,262 | 11,253 | 242,463 | 19 | 305,940 |
| **BIPCTM** | 59,034 | 19,916 | 0 | 16,919 | 330,582 | 0 | 426,451 |
| **BIPHDd** | 11,413 | 5,886 | 21,173 | 20,716 | 311,874 | 270 | 371,332 |
| **BIAP** | 17,012 | 6,081 | 2,922 | 5,852 | 127,503 | 0 | 159,370 |
| **BIPBA** | 100,878 | 1,102 | 70,734 | 35,530 | 406,415 | 99 | 614,758 |

## Cyfeiriadau

[1] Marmot M. Social determinants of health inequalities. Public Health (2005). 365:6.

[2] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Canllawiau PH55 Oral Health: local authorities and partners (2014) https://www.nice.org.uk/guidance/ph55

[3] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Delivering Better Oral Health: an evidence-based toolkit for prevention (2021). https://www.gov.uk/government/publications/delivering-better-oral-health-an-evidence-based-toolkit-for-prevention

[4] Public Health England: York Health Economics Consortium: Rapid review of evidence on the cost-effectiveness of interventions to improve the oral health of children aged 0-5 years (2016). https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/560972/Rapid_review_ROI_oral_health_5_year_old.pdf